# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 16 April 2021
am 20.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Ada Evans, Meic Francis, Dewi Rattray, Meirion Davies, Ann Tudor.**

**ABSENOLDEBAU: Dylan Davies, Caredig Jones, Richard Davies, John Davies.**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Miss Ebrill gan yr is-gadeirydd Cyng Meic Francis.

Dachraeodd y cyfarfod 8.00pm dros TEAMS.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf sef Mis Mawrth gan y clerc a chynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Rowland Jones & eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

21/011- MATERION YN CODI

1. Mae aelodau'r cyngor cymuned bellach wedi cael yr amser i edrych dros yr llythr a derbyniwyd gan Mrs Gwyndaf. Ar ôl trafod y pwyntiau a godwyd, er bod y cynhorwyr yn cytuno mewn egwyddor ynglyn a edrych ar ol y pobol lleol, roeddent yn teimlo bod hyn y tu hwnt i gylch gwaith y cyngor cymuned ac y byddai'r well anfon y consyrns a godwyd gyda'r Cyngor Sir yn uniongyrchol. Bydd y clerc yn cysylltu â Mrs Gwyndaf i gynghori yn unol â hynny.
2. Nodwyd ar tudalen facebook y pentref bod aelodau o'r cyhoedd yn trefnu bore casglu sbwriel o gwmpas y pentref. Ni fydd y cyngor cymuned yn trefnu ar hyn o'r bryd oherwydd cyfyngiadau covid.

21/012 - LLYTHYRON

1. Llythyr wrth Ian Luff yn amlunellu ei syniad o agor 'Mobile coffee catering unit' ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd yn defnyddio'r llwybr Ystwyth. Roedd y cynghorwyr yn gytun for y maes parcio'r station yard ddim yn lle addas I hyn oherwydd bod y maes yn cael eu ddefnyddio'n amal gan perchnegion loriau a bocsiau ceffylau. Ni fydd yn saff. Yn ffodus, ma Mr Luff eisioes wedi bod yn cysylltiad gyda perchnegion tir lleol a'r cyngor sir I wneud ymholiadau am dir preifat.

21/013- ARIANNOL

1. Anfoned wrth TME Electrical am £300 (£250 + £50VAT) am goleuadau'r goeden nadiolig 2020. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ada Evans
2. Aelodaeth Un Llais Cymru £163.00 am y flwyddyn 2021-22. Cynnigwyd gan y Cyng.Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis.
3. Tender Dan Owens am torri glaswellt y fynwent eleni £1275 (yr un swm a flwyddyn diwethaf) Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng Rowland Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.
4. Adroddiad oddiwrth Roy James Archwilwydd Mewnol am y flwyddyn diweddu 03/2020.
   Fe drafwyd trafodwyd yr holl ganfyddiadau yn yr adroddiad yn llawn gan y clerc ac aelodau'r cyngor fesul pwynt. Mae'r adroddiad ei hun ynghlwm wrth y cofnodion hyn ynghyd a'r ymatebion a gafwyd gan y clerc a chamau a gymerwyd neu sydd eto i'w cymryd.

21/015 - CYNLLUNIO

Cais: A210164
Ymgeisydd: Mr A Cann Y Banwen, Rhosygarth, Llanilar
Y Bwriad: Proposed Stables
Nid oed unrhyw gwrthwynebiad.

Cais: A210306
Ymgeisydd: TM & MY Edwards
Y Bwriad: Removal of Solar PV Panels from roofing and field, removal of Solar PV tracking array and replacement Solar PV array on metal framing.
Nid oes unrhyw gwrthwynebiad.

21/016 - UNRHYW FATER ARALL

1. Ofynnwyd os oedd 'steps' newydd wedi eu lleoli yn cefen stad tai Cwm Aur. Mae'r grisiau yn dod at lon cefen sy'n mynd I lawr I Glanrafon ac fe wnaeth aelod o'r cyngor cymuned codi consyrn fod yn agos iawn I ochr y ffordd. Nodwyd fod grisiau hen wedi eu lleoli yna ers blynyddoed, ond nid ydynt am y cyhoedd. Maen't yn dod o gardd preifat yn unig.
2. Mae cerbyd wedi creu difrod I'r ffens lawr maes parco'r station yard. Mi fydd y Cyng. Meirion Davies yn edrych I mewn I hyn yn bellach.

Orffennwyd y cyfarfod am 8.50pm